



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C. Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Ms J Nicholls - Blaen Swyddog Craffu (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX** on **DYDD MAWRTH, 12FED TACHWEDD, 2019** am **5.00 PM**.

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2019 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodyn:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd canlynol y Pwyllgor Trosolwg a

Chraffu yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd canlynol:-

- Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2019; a
- Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019;

5 - 16

## **ADRODDIADAU Y CYFARWYDDWR GWASANAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU**

### **3. ADRODDIADAU ER GWYBODAETH**

D.S. Mae modd dod o hyd i Adroddiadau er Gwybodaeth ar ein tudalen we Craffu trwy glicio ar y dolenni hyn:

(I'r Aelodau gydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad(au). Mae modd anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r eitem i [Craffu@rctcbc.gov.uk](mailto:Craffu@rctcbc.gov.uk))

### **4. ADBORTH – GWAITH CYN Y CAM CRAFFU**

Trafod gwybodaeth am faterion y mae'r Pwyllgor yma'n craffu arnynt - Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2020.

17 - 24

### **5. ADOLYGIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2019/20**

Adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2019/20.

25 - 40

### **6. DOLENNI YMGYNGHORI**

Gwybodaeth mewn perthynas ag [ymgyngoriadau](#) perthansol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

## **ADRODDIADAU Y SWYDDOGION**

### **7. ADOLYGIAD O'R ASESIAID RISG TÂN**

Derbyn yr adolygiad blynyddol o weithdrefnau ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor/sy'n cael eu meddiannu gan y Cyngor.

41 - 46

### **8. TROSEDD AC ANRHEFN**

Archwilio'r data ansoddol a meintiol sy'n llywio'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro cynnydd Cynllun Cyflawni Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-21

47 - 54

### **9. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng

ngoleuni amgylchiadau arbennig.

## **Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

### **Cylchreliad:-**

Cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
(Y Cynghorydd M Adams a Y Cynghorydd S Evans)

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd J Harries,  
Y Cynghorydd H Boggis, Y Cynghorydd J Brencher, Y Cynghorydd E Stephens,  
Y Cynghorydd L Walker, Y Cynghorydd G Caple, Y Cynghorydd M Griffiths,  
Y Cynghorydd S Morgans, Y Cynghorydd W Jones and Y Cynghorydd A Cox

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a  
Chyfathrebu

### **Aelodau Cyfetholedig Addysg er gwybodaeth-**

Mr M Cleverley, Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr  
Athrawesau a'r Panel Athrawon

Ms A Jones, Cynrychiolydd UNITE

Mr C Jones, Cynrychiolydd GMB

Mrs C Jones, Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a'r Panel Athrawon

Mr D Price, Cynrychiolydd UNSAIN/UNISON

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Mr A Ricketts, Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais

Mr Kevin Wilhite, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Mrs R Nicholls, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

Y Cynghorydd M Webber

Mr R Hull – Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

**</TRAILER\_SECTION>**

Tudalen wag

## CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth, 3 Medi 2019 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

### Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bresennol: -

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Evans	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd H Boggis	Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd D Macey	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd S Morgans	Y Cynghorydd W Jones

### Swyddogion yn bresennol

Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Mrs L Davies - Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Ms J Thomas, Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid  
Mr G Black, Rheolwr Gwasanaeth - Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol

## 9 Ymddiheuriad

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens

## 10 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

## 11 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd canlynol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod:-

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, 1 Gorffennaf 2019;
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig, 22 Gorffennaf 2019; a
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig, 31 Gorffennaf 2019

## 12 Materion sy'n Codi:

Materion sy'n Codi:

Cofnodion 22 Gorffennaf 2019

**Adolygu Trefniadau Etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Gofynnodd Aelod a oedd gofyn i Aelodau Cwm Rhondda Fach gofrestru eu

gwrthwynebiadau ymhellach yn dilyn eu sylwadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2019.

Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod y sylwadau a gyflwynwyd gan Aelodau yn y cyfarfod wedi bod yn rhan o adborth yr ymgynghoriad, ac y byddan nhw'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2019, lle bydd ymateb cyffredinol y Cyngor yn cael ei bennu.

### **13 Cynllun Adborth Cwsmeriaid y Cyngor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad ar y cyd mewn perthynas ag adroddiad blynyddol cyntaf y Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno 2018/19. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr adroddiad yn ceisio argymhellion y Pwyllgorau Craffu ac yn awgrymu meysydd i'w gwella o ran cynnwys a chyhoeddi adroddiadau blynyddol y Cynllun Adborth Cwsmeriaid yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 5 yn yr adroddiad a oedd yn nodi cyfranogiad y pwyllgor craffu ac ychwanegodd fod hwn yn gyfle i Aelodau nodi tueddiadau a themâu ynghyd â chytuno ar lefel adrodd briodol yn y dyfodol.

Dywedodd y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid, mai hwn oedd y tro cyntaf i adroddiad y Cynllun Adborth Cwsmeriaid gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Er nad oedd unrhyw ofyniad statudol i'r awdurdod lleol gynhyrchu adroddiad blynyddol, ystyriwyd ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'r pwyllgorau craffu am natur yr adborth gan gwsmeriaid, a sut mae'r Cyngor yn casglu sylwadau, cwynion a chanmoliaeth trigolion ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol. Amlygodd y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid rai o'r gwelliannau a wnaed i'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid ers mis Ionawr 2019, fel cofnodi adborth yn fwy cywir, cyflwyno cyfarfodydd chwarterol ar gyfer cydgysylltwyr y Cynllun Adborth Cwsmeriaid a gwelliannau i'r wybodaeth sydd ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r y Cynllun Adborth Cwsmeriaid.

Adroddwyd bod newidiadau deddfwriaethol i bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) wedi dod i rym ar 1 Mai 2019. Mae hyn yn golygu bod mwy o bwerau ymchwilio bellach mewn grym, yn ogystal â rôl fonitro safonau, tueddiadau a phatrymau ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Esboniodd y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid ei bod hi'n amser da i'r adroddiadau ddechrau cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu oherwydd, yn y dyfodol, gallai adroddiadau hefyd gynnwys canlyniadau fel y'u cofnodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a data cymharol gan awdurdodau lleol eraill.

I gloi, cyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad 1 a oedd yn nodi trosolwg o'r cynllun adborth cwsmeriaid, a dadansoddiad byr ar gyfer 2018/19.

Gofynnodd Aelod a yw ymholiadau/sylwadau a gaiff eu cofrestru drwy Twitter a mathau eraill o gyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod y sylwadau'n cael eu cofnodi, a bod unrhyw sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyfeirio at y garfan gofal cwsmer. Dywedodd e eu bod nhw'n cael eu adrodd i uwch reolwyr y cyngor fel sy'n briodol.

Gofynnodd Aelod am ddiffinio cwyn a gofynnodd sut y gellir nodi ymholiad dros y ffôn fel cwyn neu gais am wasanaeth. Eglurwyd bod gwybodaeth am gwyno yn cael ei darparu i'r cyhoedd yn ystod y sgwrs ffôn ac, yn gyffredinol, os yw'r mater yn cael ei gofnodi am y tro cyntaf, fe'i ystyrir yn gais am wasanaeth. Pwysleisiwyd mai aelodau'r cyhoedd eu hunain sydd i benderfynu a yw eu hymholiad yn gŵyn neu'n sylw.

Yn dilyn pryder a godwyd ynghylch sut mae Ysgolion yn nodi eu cwynion, eglurwyd bod gan bob Ysgol yn Rhondda Cynon Taf bolisi cwyno unigryw, gyda'r corff llywodraethu yn gyfrifol am ei lunio. Nododd y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid ei bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Uwch Garfan Reoli yn yr Adran Addysg i nodi meysydd lle mae modd gwella'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod canran uchel o gwynion a gadarnhawyd yn llawn ac yn rhannol, fe sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Roedd yr Aelodau'n awyddus i wybod sut roedd hyn yn llywio'r agenda ar gyfer y dyfodol a sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r data. Cadarnhawyd bod yr awdurdod lleol yn gwneud y cysylltiad rhwng nifer fawr o gwynion a meysydd gwasanaeth sydd angen buddsoddiad, ac mae penderfyniadau'r Cabinet yn dangos hyn.

Awgrymodd Aelod y dylid galw'r Gwasanaeth Cwynion yn wasanaeth 'Safonau Proffesiynol' gan nodi sut, yn gyffredinol, y mae'r ganmoliaeth yn cael llai o sylw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid nad oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch a fydd data Cymru gyfan yn cael ei gyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond nododd fod y pwerau newydd sydd ar gael i'r Ombwdsmon yn golygu bod modd cynnal ymchwiliad i awdurdod lleol yn seiliedig ar y tuedd sy'n dod i'r amlwg.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

- Bod adroddiad cynnydd ynghylch Cynllun Adborth Cwsmeriaid corfforaethol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu bob chwe mis (i gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cynllun Adborth Cwsmeriaid); a
- Bod yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor Craffu yn ymgorffori esboniad manwl o'r broses gwyno dau gam, gan gynnwys astudiaethau achos.

#### **14 Pecyn Cymorth Craffu (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) – Argymhellion y Gweithgor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad mewn perthynas â'r canfyddiadau a deg argymhelliad y Gweithgor Craffu a sefydlwyd i ystyried y seilwaith cerbydau carbon isel i gefnogi perchnogaeth cerbydau carbon isel yn Rhondda Cynon Taf. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cytuno i ddefnyddio'r pwnc i brofi'r defnydd o Becyn Cymorth Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu'r Cyngor i fodloni ei ofynion mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth ymgymryd â'i waith, cynhaliodd y Gweithgor Craffu drafodaethau eang ar y prosiect, gan alw am dystiolaeth o nifer o ffynonellau megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ymchwil ar bolisiâu a chynlluniau ar lefelau byd-eang, y DU, cenedlaethol a lleol. Yn ystod y cyfnod yma, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei adroddiad 'Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel 2019' a chyhoeddodd yr awdurdod lleol ei ymateb i Net Zero: y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr argymhellion yn cydnabod bod Cymru ar ei hôl hi, a'u bod yn canolbwyntio ar y paratodau ar gyfer dyfodol yr awdurdod lleol, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol ac ystyried gwaith ymgysylltu â thrigolion. Aeth ati i gydnabod fod modd cyflawni llawer o'r gwelliannau trwy'r Fargen Ddinesig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, o ran pris ac ystod y cerbydau, fod y gweithgor yn teimlo bod rhywfaint o'r wybodaeth sydd ar gael yn tanamcangyfrif y defnydd o gerbydau carbon isel yn y dyfodol, gan fod arferion yn debygol o newid. Ychwanegodd fod y gweithgor o'r farn y dylai'r Cyngor alw ar Lywodraeth Cymru i roi rhagor o arweiniad o ran seilwaith Cerbydau Trydan ledled Cymru ac annog Llywodraeth y DU i gyflwyno'r cymhellion a'r seilwaith sydd eu hangen i annog gyrwyr i ddefnyddio ceir trydan.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Cyngor yn dilyn yr Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol, ac y byddai'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2019.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yr Aelodau at y tabl a nodwyd yn yr adroddiad, sy'n dangos y nifer o bobl y mae disgwyl iddynt ddefnyddio ceir 'plug-in' yn Rhondda Cynon Taf erbyn 2030. Atgoffodd y Pwyllgor hefyd fod grantiau ar gyfer ceir hybrid 'plug-in' wedi'u torri yn y DU, a fydd yn cael effaith sylweddol ar werthiant ceir trydan ac yn lleihau'r cymhelliant i gyflawni'r nodau amgylcheddol. Yn ogystal, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu, fod y Gweithgor wedi cael gwybod am yr opsiwn dan arweiniad masnachol, lle byddai Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o sefydlu seilwaith Cerbydau Trydan. Gallai hyn fod yn ddewis da ac yn fodel gwell i'r awdurdod lleol ei ddilyn.

Gofynnodd un Aelod a gafodd ymarfer addas ei gynnal i nodi lleoliadau'r cyfleusterau gwefru presennol ar draws RhCT. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hyn wedi'i ystyried, a gwelwyd bod nifer y pwyntiau gwefru yn gyfyngedig, er bod y pwyslais ar sicrhau seilwaith a fydd yn cefnogi teithiau hirach trwy atyniadau hamdden a thwristiaeth.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu ac aelodau'r Gweithgor fod yr argymhellion yn briodol, a'u bod wedi'u gosod ar y lefel gywir, gan ganolbwyntio ar deithio o bell. Rhannodd rhai o aelodau'r Gweithgor Craffu eu profiadau o'r broses, a nodon nhw fod y gwaith wedi bod yn dasg enfawr ac yn heriol o safbwynt technegol. Bu llawer o ddadlau ynghylch yr amser y dylai'r awdurdod lleol symud ymlaen â'r datblygiad ar gyfer y seilwaith cerbydau carbon isel.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r argymhellion (yn amodol ar ddiwygiad bach i argymhelliad 9);
2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraataidd a



Chyfathrebu, gyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion i'r Cabinet ar 24 Medi 2019 ac i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol.

**15 Y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn (Yn ei rôl fel y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig (o dan Adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006))**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, a rhoddodd drosolwg o Gynllun Cyflenwi Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-21 i Bwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor (o dan adrannau 19 a 20 o Ddeddf Cyfiawnder yr Heddlu 2006).

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth strwythur Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf, fel y nodir yn Ffigur 1 yn yr adroddiad. Mae hwn yn cynnwys awdurdodau cyfrifol sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth fel rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel, ac yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd y Pwyllgor Craffu wybod nad yw Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel ar hyn o bryd a bod ganddo ei drefniadau Cymunedau Diogel ar wahân ei hun, ond gallai hyn fod yn destun newid yn y dyfodol yn dilyn canlyniad adolygiad o ffiniau Heddlu De Cymru.

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Cymunedau Diogel ddatblygu strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Ymhellach, cafodd asesiad diogelwch cymunedol 2017 ei lunio er mwyn llywio'r strategaeth honno a chanolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth. Mae'n nodi'r argymhellion allweddol sydd angen i'r Bwrdd Cymunedau Diogel eu datblygu'n rhan o Gynllun Gweithredu Partneriaeth Cymunedau Diogel 2018-21. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai pwrpas y Cynllun yw sicrhau bod Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf yn atebol am gyflawni camau gweithredu sy'n ymateb i'r blaenoriaethau a nodwyd gan Asesiad Anghenion Cymunedau Diogel Cwm Taf 2017.

I gloi, ceisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylwadau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â pha bynciau o Gynllun Cyflenwi Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-21 yr hoffai'r aelodau graffu'n fanylach arnyn nhw mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oes gan Bartneriaeth Diogelu Cwm Taf y grym i fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd y mecanwaith adrodd; byddai argymhelliad gan Fwrdd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn golygu bod modd datblygu ymrwymiad corfforaethol ar lefel uwch a chyflawni gweithredoedd yn rhan o benderfyniad aml-asiantaeth rhwymol.

Gofynnodd Aelod arall o'r Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â llywodraethu'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn, ac awgrymodd mai rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw monitro Cynllun Cyflenwi Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018–21, gan adael y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn i ddelio â materion mwy lleol fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phroblemau iechyd meddwl. Tynnodd yr Aelod sylw at y ffaith bod y cylch gorchwyl ar gyfer Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn eithrio

materion y mae modd i bwyllgor Trosedd ac Anrhefn yr Awdurdod Lleol. Hefyd, nid yw'r Cydbwyllgor wedi cyfarfod eto i osod ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu at Gonsortiw Canolbarth y De, y gwasanaeth addysg ar y cyd ar gyfer y pum awdurdod lleol sy'n edrych ar ddatblygu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio, monitro a chefnogi ysgolion i godi safonau. Ychwanegodd y gallai'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifanc hefyd ystyried yr un materion wrth ddatblygu gwelliannau'r ysgol o fewn ei gylch gorchwyl. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n eistedd fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor yn gallu ystyried y chwe blaenoriaeth strategol yn y Cynllun Cyflenwi, a phenderfynu a ydynt yn mynd i'r afael ag anghenion ein cymunedau ac yn darparu'r gwasanaethau addas trwy waith partneriaeth gwell. Ychwanegodd y bydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn cwrdd ar 27 Medi 2019 pan fydd yn llunio ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd Aelod yr hoffai weld tystiolaeth o'r effaith y mae'r chwe blaenoriaeth strategol yn ei chael ar gymunedau, a hynny ar ffurf data ansoddol. Gofynnodd beth yw'r effeithiau o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd o fewn pob un o'r blaenoriaethau; a yw preswylwyr yn profi llai o sŵn ac yn dyst i lai o weithgarwch sy'n ymwneud â chyffuriau yn eu cymunedau o ganlyniad i'r camau gweithredu, ac a yw preswylwyr yn teimlo'n fwy diogel. Teimlai y byddai data ansoddol yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r Aelodau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr egwyddor a nodwyd yn 3.5 (iv) yr adroddiad, sy'n nodi bod y Bwrdd Cymunedau Diogel yn monitro cynnydd y Cynllun Cyflenwi ac yn sail i ddatblygiad y Cynllun a oedd, yn ei farn ef, yn briodol i'r pryder a godwyd gan y Pwyllgor.

I gloi, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd fod arolwg tref blynyddol yn cael ei gynnal yn gofyn i breswylwyr a ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, sy'n ffordd effeithiol o fesur llwyddiant y camau a gymerwyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cynllun Cyflenwi yn amrywiol iawn ac yn cydnabod nad yw'r holl wybodaeth a mesurau wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor hwn. Serch hynny sicrhaodd y Pwyllgor Craffu y byddai'r mesurau cyflawniad perthnasol yn cael eu darparu ar ôl i Aelodau ddewis thema benodol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r data ansoddol mewn perthynas â'r effaith y mae'r camau gweithredu o fewn y chwe blaenoriaeth strategol yn ei chael ar ein cymunedau yn cael ei ddwyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Craffu (7 Hydref 2019). Nod hyn yw galluogi Aelodau i ddewis llinynnau priodol o Gynllun Cyflenwi Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf i'w hadolygu'n fanylach.

**Daeth y cyfarfod i ben am  
6.30pm**

**Y Cynghorydd M Adams  
Cadeirydd**

## CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gafodd ei gynnal Ddydd Llun, 23 Medi 2019 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

### Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bresennol: -

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Evans    Y Cynghorydd P Jarman  
Y Cynghorydd H Boggis    Y Cynghorydd D Macey  
Y Cynghorydd L Walker    Y Cynghorydd G Caple  
Y Cynghorydd S Morgans    Y Cynghorydd W Jones

### Swyddogion yn bresennol

Mr C Bradshaw – Prif Weithredwr  
Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu  
Mr G Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Mr N Wheeler, Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

### Aelodau eraill yn bresennol

Y Cynghorydd G Thomas

### Aelod Cyfetholedig yn bresennol

Mr J Fish – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

#### 16      **Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### 17      **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, J Brencher, M Griffiths, J Harries ac E Stephens.

#### 18      **Cynllun Corfforaethol 2020-2024**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a oedd wedi'i drefnu er mwyn rhoi'r cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â gwaith cyn craffu ar Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2020-2024 ac argymhell ffordd ymlaen a llywio'r adborth i'r Cabinet.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor Craffu fod y Cyngor wedi cymeradwyo ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020 ym mis Chwefror 2016 yn dilyn cyfnod o ymgynghori ynglŷn â'r weledigaeth, y pwrpas a'r tair blaenoriaeth ar y pryd, yr Economi, Pobl a Lle. Roedd y Cynllun Corfforaethol wedi llwyddo i llywio'r ffordd

y mae'r Cyngor yn gweithio ac mae wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â materion lleihau fel gofod swyddfa'r Cyngor a buddsoddiad mawr i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

O ran Cynllun Corfforaethol drafft y Cyngor 2020-2024, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried a oedd yn nodi gweledigaeth a phwrpas clir ar gyfer y Cyngor ac a oedd y blaenoriaethau, Pobl, Lleoedd a Ffyniant, yn briodol. Atgoffwyd yr aelodau bod y flaenoriaeth 'Ffyniant' wedi disodli'r flaenoriaeth flaenorol, 'Economi', i adlewyrchu'n well faterion sy'n ymwneud â chanol ein trefi a'r ffordd y mae preswylwyr yn cynnal eu gwaith a'u busnes a sut maen nhw'n cymdeithasu.

Cyfeiriodd Aelod at weledigaeth y Cyngor ac awgrymodd y canlynol: - "Bod y lle gorau yng **Nghymru** i fyw, gweithio a chwarae..." nid De Cymru yn unig, i adlewyrchu'n well mai'r Cyngor hwn yw'r gorau yng Nghymru.

Cyfeiriodd Aelod arall at y weledigaeth ar gyfer ein cymunedau yn y cynllun a chyfeiriodd at ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 a roddodd RCT yn y 19eg safle allan o 22 Awdurdod Lleol, islaw'r cyfartaledd Cenedlaethol gan nad yw trigolion yn teimlo eu bod yn cyfranogi o'u cymunedau. Mewn ymateb, cytunodd y Prif Weithredwr y byddai cynnal arolwg cyhoeddus gan y Cyngor ei hun yn ffordd o weld gwir adlewyrchiad o farn y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor, ymgysylltu â'r gymuned ac ofn trosedd gan fod modd i rai arolygon sampl fod yn isel a darparu darlun camarweiniol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod adroddiad i'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad nesaf yn nodi dull y Cyngor o ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion yn enwedig o ran newidiadau i wasanaethau, ymgynghori ar y gyllideb ac ymgysylltu â'r cynllun corfforaethol.

Atgoffodd yr aelod cyfetholedig a oedd yn bresennol y pwyllgor o bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifainc ac er bod y Cynllun Corfforaethol yn gadarn ac yn llawn dyheadau, roedd yn teimlo nad oedd yn apelio at bobl ifainc. Ar y cam yma, cadarnhawyd mai dim ond ceisio adborth gan Aelodau oedd y bwriad, ond byddai cyfle i ymgynghori â'r gymuned ehangach ar sawl ffurf gan gynnwys ar-lein, sioeau teithiol hygyrch ac achlysuron ymgysylltu penodol ar gyfer pobl ifainc a phobl hŷn.

Awgrymodd Aelod mai thema allweddol i bobl ifainc, a rhywbeth sy'n peri pryder iddyn nhw, yw newid yn yr hinsawdd ac efallai fyddai cynnwys y pwnc yma yn ennyn eu diddordeb. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o gamau gweithredu eisoes ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn o dan y flaenoriaeth Ffyniant.

### **Pobl: annibynnol, iach a llwyddiannus**

Esboniodd y Prif Weithredwr fod pob blaenoriaeth yn cynnwys nifer o amcanion a nifer o gamau gweithredu yn rhan o bob amcan. Roedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu lunio barn ynglŷn â pherthnasedd yr amcanion a pha mor briodol oeddent, a gwahoddodd y Pwyllgor i awgrymu meysydd eraill i'w cynnwys lle y bo'n briodol.

Trafododd yr aelodau tlodi plant a'r pryder ynglŷn â'r niferoedd sy'n byw mewn tlodi. Nodwyd bod hwn yn bwnc y dylid cyfeirio ato yn y Cynllun Corfforaethol. Roedden nhw'n cydnabod nad oedd o reidrwydd yn ymwneud â thlodi ariannol

ond ei fod yn ymwneud ag addysg wael ac amddifadedd cymdeithasol. Nododd y Prif Weithredwr fod addysg yn allweddol i alluogi teuluoedd i oresgyn tlodi. Er gwaethaf y pryderon a godwyd ynglŷn â cholli cyswllt â theuluoedd ar lefel leol oherwydd canoli gwasanaethau, pwysleisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod ystod eang o wasanaethau ar gael sydd bellach yn fwy effeithiol, fel y fenter 'Teuluoedd Cydnerth' sy'n adnabod y teuluoedd (estynedig) hynny sydd angen cymorth.

Cytunwyd y byddai hyrwyddo materion diogelu yn cael ei dargedu'n ehangach trwy nifer o ffynonellau megis gwefan y Cyngor.

Roedd ymholiad mewn perthynas â'r cyfleoedd cynyddol i weithio mewn partneriaeth ac a oes gan yr awdurdod lleol y cydbwysedd iawn, neu a oes gormod o ddibyniaeth ar bartneriaid ar hyn o bryd. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod yr awdurdod lleol yn ddiweddar wedi dwyn Bwrdd Iechyd Cwm Taf i gyfrif gyda chais bod camau pellach yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn, gan ddangos ei arweinyddiaeth.

Cyfeiriwyd at yr arolwg cynharach a nododd fod 52.9% o drigolion RhCT o'r farn bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn darparu gwasanaeth effeithiol, sy'n peri'r cwestiwn a yw'r arolygon yn adlewyrchu gwir farn y cyhoedd ac a yw gwasanaethau'n llwyddiannus? Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig tystiolaeth sy'n gosod RhCT yn agosach at y chwarter uchaf mewn sawl maes. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor Craffu mai gweledigaeth y Cyngor yw i bob plentyn yn y Fwrdeistref Sirol gyflawni hyd eithaf ei allu a bod yr awdurdod lleol yn dyheu am weld pawb yn llwyddo. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, fel y gwelir yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynllun Adborth Cwsmeriaid - Adroddiad blynyddol Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno, fod llai o gwynion yn cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) a datryswyd y rhai a atgyfeiriwyd yn llwyddiannus gan y maes gwasanaeth perthnasol.

### **Lleoedd: creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw**

Dywedodd yr aelodau fod RhCT ymhell ar y blaen i awdurdodau lleol eraill o ran torri gwair a chynnal a chadw ei fannau gwyrdd a'i wasanaethau glanhau'r strydoedd. Adroddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran – Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen am nifer o feysydd o dan y flaenoriaeth 'Lleoedd' sy'n cyflawni'n dda, e.e. roedd gostyngiad yn nifer yr hawliadau yswiriant oherwydd y gwaith parhaus i wella cyflwr y ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd fod y Cyngor, trwy nifer o fentrau, yn ceisio cyflawni ei darged i ailgylchu 70% o ddeunyddiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae lefelau baeddu cŵn a thipio anghyfreithlon wedi gostwng oherwydd pwerau gorfodi. Tynnodd yr aelodau sylw at barcio anghyfreithlon fel maes i'w gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor gan ddefnyddio cerbyd gorfodi parcio â chamêrau symudol y Cyngor i gael delweddau clir o gerbydau sy'n parcio'n anghyfreithlon y tu allan i'n hysgolion, mewn arosfannau bysiau ac ar groesfannau cerddwyr.

Canmolodd yr aelodau y broses ailgylchu yn RhCT a oedd yn cael ei hystyried yn 'wasanaeth o'r radd flaenaf' yn enwedig y gwasanaeth ailgylchu cewynnau sydd bellach â dros 11,000 o breswylwyr yn cymryd rhan ond roedd yr Aelodau'n

awyddus i'r cynlluniau sy'n gweithio'n dda gael eu hyrwyddo ymhellach.

Cytunwyd y dylid cynnwys adran ar gymunedau diogel yn y Cynllun Corfforaethol a fyddai'n dangos sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod RhCT yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru i fyw a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni hyn.

### **Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu**

Cytunodd y Pwyllgor Craffu mai'r hyn sy'n allweddol i drigolion RhCT er mwyn ffynnu yw darparu tai o safon uchel a rhoi cymorth i bobl ddod o hyd i waith. Fel priif gyflogwr, gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Cyngor yn bwriadu darparu cyflogaeth â chyflog gwell. Cadarnhawyd bod y Cyngor eisoes yn cefnogi rhieni sy'n gweithio i ddod yn ôl i'r gwaith a'i fod yn cyflwyno cynlluniau graddedigion a phrentisiaethau rhagorol. Mae busnesau'n cael eu hannog i agor yng nghanol trefi fel datblygiad Dyffryn Taf ym Mhontypridd a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal a gwariant lleol. Yn unol â hyrwyddo canol trefi, adroddwyd y byddai'r staff o Dŷ Bronwydd yn cael eu symud i ganol tref y Porth er mwyn helpu'r dref i ffynnu tra byddai'r adeilad yn cael ei drawsnewid yn gyfleuster Gofal Ychwanegol i drigolion y Fwrdeistref Sirol sydd angen cymorth ychwanegol.

Cafodd yr aelodau wybod bod cwmnïau lleol bellach yn rhyng-gysylltu ac yn marchnata â'i gilydd, gan greu rhwydwaith lleol, trwy'r Fargen Ddinesig. (Rhoddwyd enghraifft o gwmnïau'n creu cymhorthion/dyfeisiau meddygol.)

Awgrymodd Aelod fod y Cynllun Corfforaethol yn cydnabod sut mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi'r rhai sy'n cyflawni canlyniadau addysgol i'n disgyblion a chodi cyflawniad.

Cytunodd yr aelodau fod angen gwella'r ffordd rydyn ni'n hyrwyddo ein cyrchfannau i dwristiaid a'n manau gwyrdd trwy ddsbarthu pamffledi twristiaeth RhCT yn fwy eang a gwella'r arwyddion i'n parciau. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y dylai pobl leol gael eu cyflogi yn ein safleoedd treftadaeth pwysig.

I gloi, gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu roi ystyriaeth bellach i'r dull o gyflawni'r blaenoriaethau a materion penodol fel newid yn yr hinsawdd ac a yw'r saith nod llesiant cenedlaethol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cael sylw priodol.

Codwyd pryder mewn perthynas â lleihau corsydd mawn i ddarparu ar gyfer y tyrbinau gwynt a'r ofn bod RhCT yn ardal bwysig o ran datblygu ynni gwynt yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelod ai mater i RCT oedd herio Arolygiaeth Gynllunio Cymru mewn rhai achosion er mwyn amddiffyn ei chynefinoedd naturiol presennol a sicrhau balans. Awgrymwyd efallai mai dylanwad 10 awdurdod lleol y Fargen Ddinesig fyddai'r ffordd orau ymlaen wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r Gwaith 'Phurnacite' yn Aberaman, awgrymwyd y byddai trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru / y Datblygwyr yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i annog datblygiadau tai mawr ar y safle.

Yn dilyn trafodaethau helaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo drafft terfynol,

ymgorffori'r sylwadau a'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2024, i'w ystyried yn y dyfodol gan y Cabinet, cyn ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid.

**18 Materion Brys**

**19 EITEM BRYs - RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad brys yn cynnig trefniadau er mwyn i'r Pwyllgor Craffu symud y Rhybudd o Gynnig (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â datblygu rheilffyrdd a metro yn y Sir yn y dyfodol yn ei flaen, fel y cefnogwyd gan y Cyngor Llawn ar 18 Medi 2019.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sefydlu Gweithgor i ddelio â'r mater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Awgrymwyd y dylid gwahodd cynigydd ac eiliwr y cynnig i bob cyfarfod a bod cylch gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu sefydlu yn y cyfarfod cychwynol.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, fod y buddsoddiadau ymrwymiad yn fanteisiol i RCT gan fod modd i'r awdurdod lleol wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ychwanegu gwerth at y buddsoddiad cyfredol ac y gallai hynny gynnwys seilwaith a gwasanaethau rheilffordd newydd neu estynedig, trenau, tramiau, bysiau cyflym a theithio llesol ar adeg dyngedfennol pan fydd y Cabinet a'r Cyngor yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) y Cyngor.

Cadarnhawyd y byddai'r Cynghorydd D Macey yn dod i'r Gweithgor Craffu fel yr Aelod Plaid Cymru sylweddol gyda'r Cynghorwyr K Morgan a G R Davies yn dod yn ôl yr angen.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried y ffordd orau o dderbyn barn aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor mewn perthynas â'r mater, p'un ai trwy gyflwyniad llafar neu gyflwyniad ysgrifenedig. Cytunwyd y byddai aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu barn yn bersonol gan roi cyfle i'r holl Aelodau gyfrannu at y mater hwn ledled y Sir.

**PENDERFYNWYD** sefydlu Gweithgor Craffu i ddelio â'r mater ac i dderbyn enwebiadau gan aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w cyflwyno i'r Prif Swyddog Craffu. Ymhellach, mae gwahoddiad i aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor gyflwyno eu sylwadau i gyfarfod o'r Gweithgor yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod hwn i ben am 6.30pm**

**Y Cynghorydd M Adams  
Cadeirydd**

Tudalen wag





## **RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

### **OVERVIEW & SCRUTINY COMMITTEE 12th November 2019**

#### **PRE SCRUTINY FEEDBACK**

#### **REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR OF DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATIONS**

#### **1 PURPOSE OF THE REPORT**

- 1.1 The purpose of the report is to provide Members of the Overview & Scrutiny Committee with the Cabinet decision following the pre scrutiny opportunity undertaken by this Committee of the Council's Draft Corporate Plan 2020.

#### **2 RECOMMENDATIONS**

It is recommended that Overview & Scrutiny:-

- 2.1 Acknowledge the content of the Cabinet Decision Notice (appended to the report) in response to the opportunity afforded to this Committee to undertake pre scrutiny of the Council's draft Corporate Plan 2020.

#### **3 BACKGROUND INFORMATION**

- 3.1 Members of the Overview & Scrutiny Committee undertook pre scrutiny of the Council's draft Corporate Plan 2020 at its special meeting held on the 23<sup>rd</sup> September 2019. At the meeting discussions were far reaching and Members provided contributions and observations in relation to each of the Council's main priorities and key commitments as set out in the Council's draft Corporate Plan.
- 3.2 The comments captured at the meeting were subsequently incorporated into the draft Corporate Plan which was considered by Cabinet at its meeting on the [17<sup>th</sup> October 2019](#).
- 3.3 The Decision Notice from the meeting of the Cabinet is appended to this report for Members' information.

#### **4. CONCLUSION**

- 4.1 By receiving the Cabinet Decision Notice members of the Overview & Scrutiny Committee are able to view the feedback of the Cabinet to the Pre Scrutiny opportunity which will further strengthen the scrutiny process.
- 4.2 This two way process fosters greater engagement between Scrutiny and the Cabinet, enabling Scrutiny to see the benefits of its pre scrutiny opportunities on the key policy decisions of the Council.

#### **5 EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS**

- 5.1 There are no Equality and Diversity implications arising from this report and no Equality Impact Assessment is deemed necessary for the purposes of this report.

#### **6 CONSULTATION**

- 6.1 The comments of this Committee were sought in respect of the Council's draft Corporate Plan 2020 before consideration by Cabinet. Following Cabinet's approval at its meeting on the 17<sup>th</sup> October 2019, the Council's Corporate Plan will go forward to public consultation.

#### **7 FINANCIAL IMPLICATIONS**

- 7.1 There are no financial implications as a result of the recommendations set out in the report.

#### **8 LEGAL IMPLICATIONS OR LEGISLATION CONSIDERED**

- 8.1 There are no legal implications as a result of the recommendations set out in the report.

#### **9 LINKS TO CORPORATE AND NATIONAL PRIORITIES AND THE WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS ACT**

- 9.1 In undertaken pre-scrutiny, the committee considered how the proposed report met the 5 ways of working of seven well-being goal, as contained with the Future Generations & Well-being Act when considering the report.
- 9.2 In doing so, the Committee considered the long-term impact of this proposal, opportunities to work better with people, communities and partners, to tackle persistent challenges such as health inequalities. This includes recognizing the importance of tackling climate change.



Tudalen wag



**RHONDDA CYNON TAF COUNCIL**

**RECORD OF DECISIONS OF THE EXECUTIVE**

**DECISION MADE BY: Cabinet DATE DECISION MADE: 17 October, 2019**

**Cabinet Members Present:**

Councillor A Morgan (Chair), Councillor M Webber (Vice-Chair),  
Councillor R Bevan, Councillor A Crimmings, Councillor G Hopkins,  
Councillor M Norris, Councillor J Rosser, Councillor R Lewis and  
Councillor C Leyshon

**Other Councillor(s) in Attendance:-**

Councillor P Jarman

***Agenda Item : 3***

**SUBJECT: MAKING A DIFFERENCE: THE COUNCIL'S DRAFT CORPORATE PLAN  
2020-2024 FOR CONSULTATION**

**1. DECISION MADE:**

**Agreed –**

1. To note the comments and observations of the Overview & Scrutiny Committee;
2. To endorse the recommendations outlined within the Council's draft Corporate plan 2020 – 2024 as follows:
  - i. To note the actions set out in the plan that will contribute to the Council's commitment to delivering the Net Zero Carbon targets set out by the Committee on Climate Change;
  - ii. To use the Corporate Plan as a key aspect of the forthcoming 2020/21 Budget Consultation process with the public of Rhondda Cynon Taf; and
  - iii. That the feedback from the consultation processes is presented to Cabinet in March 2020, with the revised Corporate Plan being presented to a meeting of the Council later that month.

**N.B** – With the permission of the Chair, County Borough Councillor P Jarman spoke on this item.

**2. REASON FOR THE DECISION BEING MADE:**

The need to update Members on the Council's draft corporate plan 2020 – 2024 for consultation following Pre-scrutiny by the Overview & Scrutiny Committee at its meeting on the 23rd September 2019.

**3. LINKS TO CORPORATE PRIORITIES/FUTURE GENERATIONS - SUSTAINABLE DEVELOPMENT:**

As outlined within Section 10 of the report, Pre-Scrutiny ties in with the Corporate Plan priorities by making the most of the budget and improving cost effectiveness.

The draft corporate plan proposes a new set of corporate priorities and performance targets which will drive the work of the Council between 2020/21 and 2024/25 and links to the Well-being of Future Generation Act and well being goals.

**4. CONSULTATION UNDERTAKEN PRIOR TO DECISION BEING MADE:**

As detailed in Section 7, the report will be subject to public consultation.

**5. PREVIOUS CONSIDERATION BY A COMMITTEE OF THE COUNCIL:**

The report was previously subject to pre-Scrutiny by the Overview & Scrutiny Committee at its meeting on the [23rd September 2019](#).

**6. PERSONAL INTERESTS DECLARED:**

None

**7. DISPENSATION TO SPEAK (AS GRANTED BY STANDARDS COMMITTEE):**

N/A

**8. (a) IS THE DECISION SUBJECT TO CALL-IN BY THE OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEE:**

Yes

**Note:** This decision will not come into force and may not be implemented until the expiry of 3 clear working days after its publication i.e. **23 October 2019** to enable it to be the subject to the Call-In Procedure in Rule 17.1 of the Overview and Scrutiny Procedure Rules.

**8.(b) IF NO, REASONS WHY IN THE OPINION OF THE DECISION-MAKER THE DECISION IS EXEMPT OR NON APPLICABLE:**

- I. COUNCIL / SCRUTINY FUNCTION (CALL IN IS THEREFORE NON APPLICABLE):-  
Reason: N/A
- II. URGENT DECISION:-  
Reason N/A

**8.(c) IF DEEMED URGENT - SIGNATURE OF PRESIDING MEMBER OR DEPUTY PRESIDING MEMBER OR HEAD OF PAID SERVICE CONFIRMING AGREEMENT THAT THE PROPOSED DECISION IS REASONABLE IN ALL THE CIRCUMSTANCES FOR IT BEING TREATED AS A MATTER OF URGENCY, IN ACCORDANCE WITH THE OVERVIEW AND SCRUTINY PROCEDURE RULE 17.2:**

.....NA.....  
(PRESIDING MEMBER) (Dated)

**FOR OFFICE USE ONLY**

**PUBLICATION**

Publication on the Councils Website:- **Thursday, 17 October 2019**

**APPROVED FOR PUBLICATION: ✓**

Tudalen wag





## RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

### OVERVIEW & SCRUTINY COMMITTEE 12<sup>th</sup> November 2019

#### SCRUTINY FORWARD WORK PROGRAMMES

#### REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR OF DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATIONS

### 1 PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1 The purpose of the report is seek Members proposals to develop a forward work programme for the next six months. Members are asked to consider the draft forward work programme (attached as Appendix 1) and determine whether the items included (particularly from January 2020 –April 2020) are relevant and in line with the terms of reference of the Overview & Scrutiny Committee.

### 2 RECOMMENDATIONS

It is recommended that the Overview & Scrutiny Committee:-

- 2.1 Review and agree the draft Overview & Scrutiny Committee Work Programme for the Municipal Year 2019/20 (which now includes work programme topics from January to April 2020);
- 2.2 Identify any additional items Members wish to consider including in the forward work programme; and
- 2.3 Consider any training requirements that will assist Members in their role.
- 2.4 Consider providing the necessary flexibility to accommodate pre-scrutiny opportunities and early engagement in policy development; Members should also consider providing the opportunity for consideration of items generated through future public engagement.

### 3 BACKGROUND INFORMATION

- 3.1 Members will recall that at a previous meeting of the Overview & Scrutiny Committee, held on the [1<sup>st</sup> July 2019](#), a report was presented by the Service

Director of Democratic Services & Communications, which outlined a number of changes to the Scrutiny arrangements in Rhondda Cynon Taf.

- 3.2 One of the improvements included the development of a more streamlined forward work programme, which contained less items for consideration at each committee meeting to allow for more in depth review of topics and potential referrals from Council, Audit Committee and other sources.
- 3.3 Initially, the scrutiny work programmes were developed on a six monthly basis (up until December 2019) so as to give each individual scrutiny committee the opportunity to take stock and review their respective programmes going forward. The attached draft work programme contains items for consideration for the remaining Municipal Year, from January 2020 to April 2020.
- 3.4 The attached draft work programme has been compiled from current business identified and matters relating to the Council's Corporate Performance themes and priorities.
- 3.5 When setting their work programme members are asked to consider and acknowledge their role relating to the Well-being of Future Generations Act goals and the importance of ensuring that the decisions of the Council are progressed through the lenses of the Act.
- 3.6 The proposed work programme also incorporates matters previously identified by Scrutiny members such as:-
  - The Council's plastic waste policy;
  - The bi-annual report on the Councils Corporate Feedback Scheme (CFS);
  - A Scrutiny Working Group to consider the future rail development in the County (to include the wider County Borough footprint as amended) (Notice of Motion to Full Council [18<sup>th</sup> September 2019](#))
  - A meeting dedicated to the Crime & Disorder Committee March 2020 (under Sections 19 and 20 of the Police and Justice Act, 2006) – items previously identified from qualitative data produced at Committee's request.
- 3.7 A series of Cabinet/Scrutiny engagement sessions were held throughout October between the Scrutiny Chairs, Vice Chairs, respective Cabinet Members and Senior Leadership Officers, which supported the Scrutiny arrangements going forward and also informed the respective forward work programmes.

#### **4. TRAINING**

- 4.1 To assist Scrutiny Members in fulfilling their role a training session was arranged for all RCT scrutiny members and co-opted members on Friday, 25th October

2019 (9.30am-12.30pm). The session was facilitated by Dr Dave McKenna, a dedicated scrutiny practitioner with ten years' experience including as Manager of Swansea Council scrutiny team. He has presented at national conferences in Wales and hosted workshops at three Centre for Public Scrutiny annual conferences.

- 4.2 The scrutiny training session was solution focussed and asked Members to consider what works well in their own local authority and what Members are looking to improve by using good practice ideas. One of the key aims of the session was to explore how scrutiny in RCT can have more impact through improved questioning.
- 4.3 Further to the Scrutiny training session, ongoing training requirements are a key consideration and therefore Members are asked to identify any other gaps in their development particularly in relation to undertaking scrutiny of the items listed on the forward work programme.
